# Datganiad Terfyn Ffioedd

| Datganiad Terfyn Ffioedd | |
|---|---|
| Prifysgol Wrecsam | |
| Mae cyfnod y datganiad terfyn ffioedd hwn yn para am flwyddyn gan ddechrau ar 1 Awst 2027 | |
| **Adran 1 - Lefelau Ffioedd** | |
| **Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu bennu lefel ffi ym mhob lleoliad** | |
| **Lefel ffi** | **Lleoliad y cwrs** |

| | |
|---|---|
| Y ffi uchaf sy'n gymwys (yn unol â chapiau ffioedd dysgu israddedig Llywodraeth Cymru) | • Mae'r ffi hon yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2027/28.<br>• Y lleoliadau: Campws Wrecsam, Campws Gogarth, Campws Llanelwy, Coleg Castell-nedd Port Talbot, Coleg Cambria.<br>• Cymwysterau: Baglor yn y Celfyddydau (Anrh), Baglor mewn Gwyddoniaeth (Anrh), Baglor mewn Peirianneg (Anrh), Baglor mewn Nyrsio (Anrh), LLB (Anrh), Tystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC, Diploma Addysg Uwch, Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau, Peirianneg a Gwyddoniaeth, a HNC. |

**Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol**

Mae'r Brifysgol yn cynnig codi ffioedd ar gyfer cyrsiau israddedig amser llawn yn 2027/28 ar y lefel uchaf a ganiateir, yn amodol ar gymeradwyo'r Datganiad Terfyn Ffioedd hwn. Nid yw hyn yn cynnwys rhaglenni blwyddyn sylfaen yn yr ystafell ddosbarth. Ni fydd y Brifysgol yn codi mwy na'r lefel ffi uchaf a bennir gan Lywodraeth Cymru. Y lefel ffi uchaf gyfredol ar gyfer 2026/27 yw £9,790.

Gall ffioedd dysgu gynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau a bennir gan Lywodraeth Cymru. Y ffi flynyddol uchaf ar gyfer rhaglenni blwyddyn sylfaen yn yr ystafell ddosbarth fydd £5,760. Bydd unrhyw ddiwygiadau i lefelau ffioedd yn cael eu cyfathrebu i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr drwy sianeli priodol. Bydd gwefan y Brifysgol yn brif ffynhonnell gwybodaeth am ffioedd a chymorth i fyfyrwyr.

Bydd y ffi flynyddol uchaf ar gyfer rhaglenni blwyddyn sylfaen sy'n cael eu cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth yn £5,760.
Bydd unrhyw ddiwygiadau i lefelau ffioedd yn cael eu cyfleu i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr drwy wefan y Brifysgol a sianeli cyfathrebu sefydledig eraill. Mewn ymateb i unrhyw newidiadau i'r lefel ffi uchaf a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adolygu ei lefelau ffioedd yn dilyn cyflwyno'r Datganiad Terfyn Ffioedd hwn. Bydd unrhyw ddiwygiadau o'r fath yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Medr.

Gall newidiadau i lefelau ffioedd effeithio ar yr ystod lawn o ddarpariaeth a nodir yn y Datganiad hwn, sy'n seiliedig ar lefel ffi flynyddol uchaf dybiedig o £9,790 ac felly'n llywio safbwynt ffioedd cyfanredol y Brifysgol.

Mae'r ffi a gyhoeddir yn cynrychioli'r ffi ddysgu flynyddol ar gyfer y cwrs. Gall myfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffi ddysgu ar gyfer hyd llawn eu rhaglen drwy luosi'r ffi flynyddol berthnasol â nifer y blynyddoedd astudio. Er enghraifft, byddai cwrs tair blynedd gyda ffi flynyddol o £9,790 yn arwain at gyfanswm ffi ddysgu o £29,370, yn ddarostyngedig i unrhyw amrywiadau a ganiateir.

Ar gyfer myfyrwyr a ymrestrodd mewn blynyddoedd blaenorol, bydd y Brifysgol yn anrhydeddu'r ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad neu'r Datganiad Terfyn Ffioedd sy'n berthnasol i'w blwyddyn mynediad.

Gwefan y Brifysgol fydd y brif ffynhonnell wybodaeth am ffioedd a chymorth i fyfyrwyr, wedi'i hategu gan gyfathrebiadau digidol eraill. Bydd gwybodaeth glir a chyfredol am ffioedd a threfniadau cymorth ar gael cyn gynted â phosibl er mwyn cefnogi penderfyniadau gwybodus. Cyhoeddir gwybodaeth am ffioedd a chyllid yn https://wrexham.ac.uk/fees-and-funding/, a chyhoeddir y Datganiad Terfyn Ffioedd cymeradwy yn dilyn cymeradwyaeth gan Medr.

Bydd cyfanswm atebolrwydd ffi myfyriwr yn adlewyrchu'r ffi uchaf sy'n gymwys ym mhob blwyddyn astudio ac fe all gynyddu'n flynyddol yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod rheoliadau ffioedd a gwybodaeth gysylltiedig yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws pob llwybr mynediad a maes pwnc. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amgylchiadau penodol, gan gynnwys myfyrwyr sy'n trosglwyddo o sefydliadau eraill, yn gohirio eu hastudiaethau, neu'n newid eu dull presenoldeb (er enghraifft, o amser llawn i ran-amser). Bydd y Brifysgol yn nodi'n glir fod ffioedd dysgu yn cwmpasu'r holl elfennau sy'n ofynnol ar gyfer cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Wrth ddarparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr, bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus cyn gwneud cais. Bydd hyn yn

cynnwys, yn ogystal â ffioedd dysgu, fanylion unrhyw gostau ychwanegol gorfodol sy'n gysylltiedig â chwblhau'r cwrs, megis teithiau maes, offer arbenigol, neu ffioedd stiwdio neu feinciau gwaith, lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd dogfennaeth y cynnig yn cynnwys dolenni at delerau ac amodau'r Brifysgol, gan gynnwys y rheolau a'r rheoliadau perthnasol, ynghyd â gwybodaeth am gynnwys a strwythur y cwrs. Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig lle yn cael gwybodaeth glir ac amserol ynghylch eu rhaglen astudio, gan gynnwys amserlenni, gofynion asesu, ffioedd, rheoliadau, trefniadau cymorth i fyfyrwyr, datblygiadau ar y campws, ac unrhyw newidiadau sylweddol.

# Awdurdodi'r datganiad terfyn ffioedd (angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau'r datganiad terfyn ffioedd, mae'r corff llywodraethu (neu gyfwerth):

i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

ii. yn cadarnhau bod ymgynghori priodol wedi digwydd gyda undeb y myfyrwyr neu gyrff cynrychioliadol eraill, ac felly'n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffioedd arfaethedig a'u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant

iii. yn cadarnhau bod costau ychwanegol y cwrs (e.e. deunyddiau, teithiau maes) ar gael mewn fformatau hygyrch, megis tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau cynnig.

iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth yn y datganiad hwn yn gywir ac yn gyfredol ar adeg ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata dilysadwy;

v. yn cadarnhau bod pob cwrs cymwys y mae terfynau ffioedd statudol yn berthnasol iddo wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn;

vi. yn deall bod yn rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yn y datganiad terfyn ffioedd ac a gymeradwywyd gan Medr;

vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;

viii. yn cadarnhau y bydd copi o'r datganiad ar gael i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

ix. yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Medr wrth gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

| Cyflwyno datganiad terfyn ffioedd i Medr | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyo'r corff llywodraethu (neu gyfwerth): | 23.06.2026 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gyfwerth): |  |
| Dyddiad: | **23.06.2026** |
| **Cyflwyniad terfynol y datganiad terfyn ffioedd ar ôl i Medr gadarnhau nad oes unrhyw faterion pellach (lle bo hynny'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyo'r corff llywodraethu (neu gyfwerth): | |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gyfwerth): | |
| Dyddiad: | |

[1] Rhaid i ddatganiadau terfyn ffioedd a gyhoeddir ar wefannau'r darparwr gynnwys yn unig y fersiynau a gymeradwywyd gan Medr.